Rhyddhau o'r carchar yn gynnar - gweithio gweddill eich dedfryd yn y gymuned

Os cawsoch chi'ch dedfrydu i fwy na 12 mis o garchar, efallai y cewch eich rhyddhau yn gynnar ar drwydded. Fe fydd gennych drwydded hefyd os ydych allan o'r carchar ar gyrffyw cadw i'r cartref (tagio). Mae bod ar drwydded yn golygu eich bod o hyd yn gweithio dedfryd carchar ond eich bod yn gallu byw yn y gymuned yn lle bod mewn carchar. Mae pa mor hir y bydd y rheolau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar hyd eich dedfryd. Os ydych chi'n torri'r rheolau, bydd yn rhaid i chi ddychwelyd i'r carchar (eich galw yn ôl).

Rheolau safonol os ydych ar drwydded

Dyma'r rheolau safonol na ddylech chi eu torri:

- rhaid i chi ymddwyn yn dda heb gyflawni unrhyw droseddau pellach neu wneud dim byd allai beryglu aelodau'r cyhoedd neu eich ffrindiau neu deulu
- rhaid i chi gadw cysylltiad â'ch swyddog prawf a gwneud yr hyn maen nhw'n gofyn i chi ei wneud. Rhaid i chi beidio bod yn hwyr i apwyntiadau neu droi i fyny o dan ddylanwad diod neu gyffuriau. Rhaid i chi beidio gwneud unrhyw sylwadau hiliol na rhywieithol.
- os yw'ch swyddog prawf am ymweld â chi gartref neu rywle arall, rhaid i chi gytuno i hyn
- mae'n rhaid i chi fyw mewn cyfeiriad a gymeradwywyd gan eich swyddog prawf. Dywedwch wrth eich swyddog prawf ymlaen llaw os ydych yn bwriadu gadael y cyfeiriad hwnnw neu aros mewn cyfeiriad arall, hyd yn oed os ydyw am un noson yn unig. Hefyd mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog prawf os ydych yn newid eich rif ffôn.
- fe allwch gymryd swydd dim ond os ydyw'ch swyddog prawf yn cymeradwyo hynny. Mae hyn yn berthnasol i waith gwirfoddol yn ogystal â gwaith lle derbynnir tâl.
- rhaid i chi beidio teithio y tu allan i'r DU heb ganiatâd eich swyddog prawf. Ni cheir caniatâd fel arfer ac felly gofynnwch cyn gwneud unrhyw drefniadau neu brynu tocynnau.
- os ydych chi ar gyrffyw cadw i'r cartref, mae'n rhaid i chi gadw at y cyrffyw hwnnw. Mae hyn yn golygu ar adegau arbennig o'r dydd neu'r nos, bydd rhaid i chi aros i mewn. Fel arfer mae'r cyrffyw yn parhau o 7pm yr hwyr tan 7am y bore wedyn. Mae'r cwmni tagio yn eich monitro chi ac yn dweud wrth y Swyddfa Gartref os ydych chi'n torri'r rheolau.

Yn ogystal â'r rheolau safonol hyn, efallai bydd eich swyddog prawf wedi argymell amodau ychwanegol, megis dim cysylltu â rhai pobol arbennig neu dim byw yn yr un cyfeiriad â phlant. Bydd eich trwydded yn nodi beth yw'r amodau ychwanegol. Os oes rhaid i chi golli apwyntiad gyda'ch swyddog prawf, mae'n bwysig eich bod yn gallu dangos prawf o'r rheswm. Er enghraifft, os ydych chi'n sâl, mynnwch nodyn doctor.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fe allwch chi wneud cais i'ch swyddog prawf i newid eich amodau. Er enghraifft, os ydyw'r cyrffyw yn golygu na allwch gymryd swydd addas, fe ellir newid oriau eich cyrffyw.

Llety

Chewch chi ddim eich ystyried ar gyfer rhyddhau'n gynnar hyd nes bydd gennych gyfeiriad addas. Gall hwn fod gyda ffrindiau neu deulu neu mewn hostel. Efallai y cewch chi gymorth gan y cyngor i dalu am eich llety. Nid oes gennych hawl i symud heb ganiatâd eich swyddog prawf.

Budd-daliadau

Os ydych yn gweithio dedfryd carchar yn y gymuned, mae gennych yr hawl i hawlio budd-daliadau. Er enghraifft, fe allech hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn. Gwnewch eich cais cyn gynted ag sy'n bosibl. Fe allwch chi gael help i hawlio budd-daliadau.

Gwaith

Nid oes hawl gennych i gymryd swydd oni bai fod eich swyddog prawf yn ei chymeradwyo. Mae yna reolau ynglŷn â datgan eich cofnod troseddol wrth ymgeisio am swydd. Ar gyfer rhai swyddi, megis gweithio gyda phlant, pobol anabl a phobol fregus eraill, bydd yn rhaid i chi ddatgan eich holl euogfarnau troseddol.

Gofal Iechyd

Nid yw'r carchar yn gyfrifol am ofal iechyd os ydych yn gweithio'ch dedfryd yn y gymuned. Oni bai fod cael triniaeth yn un o'ch amodau, mae i fyny i chi i gael y gofal iechyd sydd ei angen. Wrth i chi adael y carchar, mae'n syniad da i gofrestru gyda Meddyg teulu.

Os ydych yn torri'r rheolau

Fe allech chi gael eich anfon yn ôl i'r carchar os torrwch chi'r rheolau. Yn y lle cyntaf, bydd eich swyddog prawf yn edrych ar eich achos. Efallai y byddan nhw'n rhoi rhybudd i chi neu efallai y penderfynan nhw y dylech chi fynd yn ôl i'r carchar. Os ydyn nhw'n credu y dylech chi fynd yn ôl i'r carchar, fe ofynnan nhw i'r Swyddfa Gartref eich gorchymyn i ddychwelyd i'r carchar. Gellir cymryd y penderfyniad hwn yn gyflym iawn - mewn achosion brys, gall y penderfyniad ddigwydd o fewn dwy awr. Fe gewch eich arestio a'ch cymryd i'r carchar ar unwaith. Eich carchar lleol fydd hwn fel arfer, nid yr un y rhyddhawyd chi ohono o angenrheidrwydd.

Os cyflawnoch chi drosedd arall tra allan ar drwydded, fe ewch i'r llys ar gyfer y drosedd honno. Os byddwch yn euog, ychwanegir y ddedfryd newydd at eich hen ddedfryd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os anfonir chi yn ôl i'r carchar am dorri eich amodau, fe ddylech gael cyngor cyfreithiol cyn gynted ag sy'n bosibl. Efallai y cewch chi Gymorth Cyfreithiol.

Problemau os cewch eich anfon yn ôl i'r carchar

Efallai y bydd gennych broblemau os cewch eich anfon yn ôl i'r carchar, er enghraifft:

- mae yna oedi cyn y caiff y carchar wybodaeth amdanoch
- nid ydych yn gwybod am ba mor hir y byddwch chi yn y carchar. Sut bynnag, fe ddylid rhoi pecyn gwybodaeth i chi sy'n esbonio sut i apelio i'r Bwrdd Parôl
- os nad anfonir chi yn ôl i'r un carchar, efallai na fyddwch yn gwybod sut mae'r carchar yn gweithio. Sut bynnag fe ddylid esbonio wrthych am unrhyw wahaniaethau rhwng y carchar lle'r oeddech yn arfer bod a'r un newydd
- efallai y collwch chi'ch hawl i Fudd-dal Tai ar ôl bod yn ôl yn y carchar am 13 wythnos

Os nad ydych yn siŵr pam yr anfonwyd chi yn ôl i'r carchar neu os oes gennych unrhyw broblemau eraill, mynnwch gyngor arbenigol.

Cwynion

Os aiff rhywbeth o'i le, mae gennych yr hawl i gwyno naill ai i Wasanaeth y Carchardai neu i'r Swyddog Prawf, yn dibynnu ar bwy yr ydych yn cwyno yn ei gylch. Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch trin yn annheg, er enghraifft, oherwydd eich hil, rhyw, anabledd neu rywioldeb, gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am hyn yn y gwyn. Os nad yw hyn yn datrys y broblem, mae gennych yr hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cyngor yn y carchar. Os ydych yn y carchar, holwch os ydynt yn cynnig y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn rhedeg sesiynau cyngor, mae'n bosib i chi ysgrifennu at eich CAB lleol gan esbonio eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol. Os nad ydych yn y carchar, ac rydych chi am ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy'r e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu chwiliwch o dan C yn eich llyfr ffôn.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai
Mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim i garcharorion, gan gynnwys y carcharorion sy'n gweithio'u dedfryd yn y gymuned. Fe allwch eu ffonio ar 020 7251 5070. Eu gwefan yw www.prisonreformtrust.org.uk

Ombwdsmon Carchardai a Phrawf
Gall yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf ddelio â chwynion gan garcharorion sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fe allwch eu ffonio ar 020 7035 2876 neu 0845 010 7938 (lo-call). Eu gwefan yw www.ppo.gov.uk

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion a thai
- Carcharorion- cael cymorth ychwanegol
- Gadael y carchar
- Hawliau Claf
- Carcharorion - cwyno
- Carcharorion a budd-daliadau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr